Cyllid & Thollau EM

Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin/absenoldeb tadolaeth cyffredin – dod yn rhiant

Dod yn rhiant

Os ydych am gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i roi cymorth i fam y baban neu i ofalu am y baban, efallai bod gennych hawl i:

- Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin (OSPP) – bydd o leiaf rhan o'ch cyflog yn cael ei dalu am bythefnos. Byddwch yn derbyn y gyfradd wythnosol o OSPP sydd mewn grym ar adeg eich absenoldeb tadolaeth cyffredin, neu 90% o'ch enillion wythnosol cyfartalog, pa bynnag un sydd leiaf
- absenoldeb tadolaeth cyffredin – hyd at bythefnos o'r gwaith.

Darllenwch drwy'r amodau a thelerau isod ac os ydych yn meddwl y gallech fod yn gymwys, yna llenwch y ffurflen gyferbyn a chwblhewch y datganiad, ar dudalen 2.

Telerau ac amodau

Mae OSPP ac absenoldeb tadolaeth cyffredin ar gael i:

- tad biolegol
- partner, gŵr neu bartner sifil nad yw'n dad biolegol y baban.

Rhaid eich bod yn gallu datgan:

- eich bod
  - yn dad biolegol y baban, **neu**
  - yn briod i neu mewn partneriaeth sifil â'r fam, **neu**
  - yn byw gyda'r fam mewn perthynas deuluol barhaus, ond nad ydych yn berthynas agos, **ac**
- y byddwch yn gyfrifol am fagwraeth y plentyn, **ac**
- y byddwch yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i roi cymorth i'r fam neu i ofalu am y plentyn.

Mae'n rhaid eich bod wedi eich cyflogi'n barhaus gan yr un cyflogwr am o leiaf 26 wythnos erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn yr wythnos y mae'r baban i fod i gyrraedd. Rhaid i chi wedyn barhau i gael eich cyflogi gan yr un cyflogwr hyd nes y mae'r baban yn cael ei eni.

Er mwyn cael OSPP mae'n rhaid bod gennych hefyd enillion cyfartalog dros gyfnod penodedig sy'n uwch na swm penodol – bydd eich cyflogwr yn cyfrifo hyn ar eich rhan.

Ni allwch ddechrau eich absenoldeb tadolaeth cyffredin cyn i'r baban gael ei eni. Gallwch ddewis cymryd wythnos neu bythefnos lawn o absenoldeb, ond dim dwy wythnos ar wahân, sydd raid gorffen erbyn y 56 diwrnod ar ôl y dyddiad geni. Os genir y baban yn gynnar gallwch ddewis cymryd eich absenoldeb unrhyw bryd rhwng y gwir ddyddiad geni a diwedd cyfnod o wyth wythnos yn cychwyn ar ddydd Sul yr wythnos yr oedd y baban i fod i gael ei eni. Ni allwch gymryd diwrnodau o absenoldeb yma ac acw, ond gall yr wythnosau ddechrau ar unrhyw ddydd, er enghraifft dechrau o ddydd Mawrth hyd at ddydd Llun.

Mae'n rhaid i chi drafod eich cynlluniau absenoldeb gyda'ch cyflogwr a dweud wrthynt pa amser i ffwrdd yr ydych ei eisiau erbyn y 15fed wythnos cyn yr wythnos y mae'r baban i fod i gael ei eni. Gall eich cyflogwr ddweud wrthych pryd y mae hyn os nad ydych yn sicr.

Gallwch newid eich meddwl ond mae'n rhaid i chi roi 28 diwrnod o rybudd i'ch cyflogwr o'r dyddiadau. Os ydych yn newid eich meddwl, efallai y byddwch chi a'ch cyflogwyr yn ei chael yn ddefnyddiol llenwi ffurflen newydd SC3 *Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin/absenoldeb tadolaeth cyffredin.*

Os na allwch ddweud wrth eich cyflogwr pa amser i ffwrdd yr ydych eisiau mewn pryd, neu os genir y baban yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl, yna trafodwch y sefyllfa gyda'ch cyflogwr.

Manylion Personol

Cyfenw neu enw teuluol

Enw(au) cyntaf

Rhif Yswiriant Gwladol

☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐

Eich dyddiadau ar gyfer tâl ac absenoldeb

Rhowch y dyddiad y mae'r baban i fod i gael ei eni.
Os yw'r baban eisoes wedi ei eni rhowch y dyddiad roedd y baban i fod i gael ei eni a'r gwir ddyddiad geni.

Dyddiad geni disgwyliedig *DD MM BBBB*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

Gwir ddyddiad geni *(os yn berthnasol) DD MM BBBB*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

Hoffwn i'm OSPP ac/neu absenoldeb tadolaeth cyffredin ddechrau ar y dyddiad y genir y baban

Na fuaswn ☐ Buaswn ☐

Os 'Na fuaswn', hoffwn i'm OSPP i ddechrau o fewn wyth wythnos o'r dyddiad y genir y baban yn cychwyn ar neu o gwmpas *DD MM BBBB*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

Yr wyf yn dymuno bod i ffwrdd o'r gwaith am

wythnos ☐

bythefnos ☐

Trowch drosodd

Eich datganiad

Mae'n rhaid eich bod yn gallu rhoi tic ymhob un o'r tri blwch isod i gael Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin ac absenoldeb tadolaeth cyffredin.

Yr wyf yn datgan:

- fy mod
  - yn dad biolegol i'r baban, **neu**
  - yn briod i neu mewn partneriaeth sifil â'r fam, **neu**
  - yn byw gyda'r fam mewn perthynas deuluol barhaus ond nad wyf yn berthynas agos, **a** ☐
- bydd gennyf gyfrifoldeb am fagwraeth y plentyn, **a** ☐
- byddaf yn cymryd amser o'r gwaith i roi cymorth i'r fam neu i ofalu am y plentyn. ☐

Llofnod

Dyddiad *DD MM BBBB*

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

Rhowch y ffurflen hon i'ch cyflogwr, ond cadwch gopi o'r amodau a thelerau ar gyfer eich cofnodion.

Gwybodaeth bellach a chymorth arall

Yn ddibynnol ar eich amgylchiadau efallai na fyddwch yn gymwys am OSPP ac/neu absenoldeb tadolaeth cyffredin. Bydd eich cyflogwr yn rhoi gwybod i chi. Os felly fe gewch fwy o gyngor a gwybodaeth ar y pryd.

Os nad oes gennych hawl i OSPP gallech fod â hawl i gymorth llywodraethol arall. Cysylltwch ag unrhyw swyddfa Canolfan Byd Gwaith am ragor o wybodaeth.

Mae gan gyhoeddiad Yr Adran Gwaith a Phensiynau NI17A *A guide to Maternity Benefits* hefyd fanylion o lyfrynnau eraill sy'n delio â buddiannau nawdd cymdeithasol a pheth gwybodaeth ynghylch tadolaeth. Ewch i **www.dwp.gov.uk/publications/specialist-guides/technical-guidance**

Am wybodaeth bellach ar OSPP gallwch hefyd fynd i:

- **www.direct.gov.uk/workandfamilies**
- **www.acas.org.uk**

Tâl Statudol Tadolaeth Ychwanegol (ASPP)

Os oes gennych hawl i OSPP gallech fod yn gymwys i dderbyn Tâl Statudol Tadolaeth Ychwanegol (ASPP) hefyd.

Os hoffech ragor o wybodaeth ynglŷn â hawl i ASPP dylech ofyn i'ch cyflogwr neu fynd ar-lein i **www.direct.gov.uk**

Anghydfodau

Os yw eich cyflogwr yn dweud wrthych nad oes gennych hawl i OSPP ac/neu absenoldeb tadolaeth cyffredin, gallwch herio'r penderfyniad. Os oes angen cymorth arnoch gyda hyn, ar gyfer:

- OSPP – os hoffech gofrestru anghydfod ar ôl derbyn gwybodaeth bellach, gweler, *Gwybodaeth bellach a chymorth arall*, ffoniwch ein Tîm Anghydfodau Taliadau Statudol ar **0191 225 5221**
- absenoldeb tadolaeth cyffredin – ffoniwch Linell Gymorth Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (Acas) **08457 47 47 47**. Yng Ngogledd Iwerddon ffoniwch y 'Labour Relations Agency' ar **028 9032 1442**.

Cosbau

Gall cosbau gael eu codi pan fydd person, naill ai drwy dwyll neu drwy esgeulustod, yn rhoi gwybodaeth anghywir neu'n gwneud datganiad celwyddog at ddibenion hawlio tâl mabwysiadu statudol, tâl tadolaeth cyffredin, tâl tadolaeth ychwanegol, tâl mamolaeth neu dâl salwch.